www.mantellgwynedd.com

Mantell

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 74 • **Hydref 2016**

Cynnwys

O Mantell	2
Newyddion	3
Iechyd a Llesiant	4
Ffrindia'	5
Canolfan Gwirfoddoli	6
Plant a Phobl	7
Canfod Gwerth Budd Cymdeithasol	8
Cyfleoedd Ariannu	9
Digwyddiadau ac Hyfforddiant	10

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

MANTELL GWYNEDD

Swyddfa Gofrestredig:
23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon,
Gwynedd, LL55 1AB.
Ffôn: 01286 672626
Ffacs: 01286 678430

E-bost:
ymholiadau@mantellgwynedd.com

Swyddfa Gofrestredig:
Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt,
Dolgellau, Gwynedd, LL40 1SB.
Ffôn: 01341 422575
Ffacs: 01341 422147

Gwefan:
www.mantellgwynedd.com

Facebook: **mantellg**

Trydar: **@mantellgwynedd**

Rhwydwaith Ymarferwyr Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn y Galeri, Caernarfon, ar 14eg o Fedi.

Fel rhan o'n bwriad i ddatblygu ein cenhadaeth i gael pawb ar draws y sectorau i wreiddio gwerth cymdeithasol ac mesur effaith fel rhan o'i gwaith, penderfynwyd sefydlu y rhwydwaith yma yng Ngogledd Cymru. Dyma gyfle i bawb sydd yn gweithio ym maes o fesur gwerth cymdeithasol i ddod at eu gilydd i rannu gwybodaeth a thrafod eu gwaith i gynorthwyo gyda'r datblygiad yma yng Ngogledd Cymru.

'Roedd yr adborth o'r cyfarfod yn bositif iawn, ac yn amlwg mae yna chwant i ddatblygu gwerth cymdeithasol ar draws y sectorau yng Ngogledd Cymru. Roeddem yn ffodus i gael cyflwyniad gan Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant, i ddangos sut maent yn gwreiddio mesuriadau effaith yn y mudiad ac yn adnabod pwysigrwydd hyn ar gyfer gwneud penderfyniadau mewnol ond hefyd ar gyfer y broses tendro ac denu arianwyr.

SOCIAL VALUE CYMRU

STAFF MANTELL GWYNEDD
Prif Swyddog:
Bethan Russell Williams

TÎM DATBLYGU A GWASANAETHAU
Uwch Swyddog Datblygu a Gwasanaethau:
Delyth Vaughan
Swyddog SROI:
Eleri Lloyd
Cyfrifydd Cymdeithasol:
Dr Adam Richards

TÎM IECHYD
Hwylusydd Iechyd a Llesiant:
Sioned Llwyd Larsen
Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol, Swyddog Cyswllt Cymunedol:
Rhian Griffiths
Rheolydd Prosiect Ffrindia':
Carys Williams
Cydlynydd Gwirfoddolwyr Arfon:
Alan Thomas
Cydlynydd Gwirfoddolwyr Dwyfor:
Dawn Thomas
Cydlynydd Gwirfoddolwyr Meirionnydd:
Mirain Fflur Breese

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL
Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu:
Ceren Williams
Swyddog Gweinyddol:
Bronwen Rowlands
Cynorthwy-ydd Cyllid:
Tracy Williams
Cynorthwy-ydd Gweinyddol:
Tracy Lynne Rotheram
Cynorthwy-ydd Gweinyddol:
Ellen ap Dafydd

TÎM CANOLFAN GWIRFODDOLI
Cydlynydd Canolfan Gwirfoddoli:
Carwyn Humphreys
Swyddog Gwirfoddoli:
Gwenllian Glyn Dafydd

DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF O MANTELL

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw

24 Tachwedd 2016

Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**, Swyddfa Mantell Dolgellau
e-bost:
ellenapdafydd@mantellgwynedd.com
Ffôn: **01341 422 575**

Nodyn gan y Prif Swyddog

Mewn digwyddiad yn Venue Cymru yn ddiweddar lansiwyd Strategaeth Gwirfoddoli Gogledd Cymru gan y Bwrdd Iechyd dan y teitl "Cefnogi Cymunedau a Newid Bywydau".

'Roedd y strategaeth yn dilyn misoedd o ymgynghori gyda gwirfoddolwyr a mudiadau trydydd sector ar draws Gogledd Cymru. Cychwynnwyd ar y broses fis Ionawr eleni pan ddaeth criw o dros 60 o unigolion at ei gilydd yn yr Optic yn Llanelwy er mwyn cael trafodaeth gychwynnol am fformat y strategaeth. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw cafwyd digwyddiadau yn y Gorllewin, y Canol a'r Dwyrain gyda dros 200 yn mynychu. Daeth pawb yn ôl at ei gilydd ddiwedd mis Mawrth er mwyn mynd ati i ddrafftio dogfen fyddai yn cyfleu'r negeseuon a ganfuwyd yn ystod y broses.

Mae Strategaeth y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu Polisi Gwirfoddoli a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2015. Yn y Polisi hwnnw nodwyd bod angen uchafu'r nifer o wirfoddolwyr mewn iechyd a gofal er mwyn ateb gofynion ychwanegol. Mae Polisi Gwirfoddoli y Bwrdd Iechyd wedi nodi pedair nod strategol sef:

1. Cydnabod gwerth gwirfoddolwyr;
2. Gweithio mewn Partneriaeth ag eraill;
3. Darparu Hyfforddiant a chefnogaeth;
4. Darparu Canllawiau eglur ac atebolrwydd i wirfoddolwyr.

'Roedd y digwyddiadau ar hyd a lled Gogledd Cymru yn gyfle i'r Bwrdd Iechyd gydnabod yr holl waith mae gwirfoddolwyr yn ei gyflawni sydd yn ychwanegu gwerth sylweddol at safon gofal cleifion a'u teuluoedd. Tynnwyd sylw arbennig at waith y Robins yn yr ysbytai, cyfraniad y Royal Voluntary Service i wasanaethau, a Chyfeillion Ysbytai (League of Friends) sydd yn gwneud cyfraniad allweddol i wasanaethau y Bwrdd Iechyd. Rhai misoedd yn ôl cefais yr anrhydedd o gyfarfod Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd a chefais fy syfrdanu wrth glywed eu bod, dros gyfnod o 3 blynedd, wedi codi £1 miliwn o arian i gefnogi gwasanaethau yr ysbyty. Mae'r arian wedi ei ddefnyddio i brynu cyfarpar meddygol arbenigol sydd yn golygu gwell gwasanaeth i gleifion – dyma gyfarpar meddygol na fyddai modd ei brynu heb ymdrechion clodwiw y codwyr arian.

Mae gwirfoddolwyr yn cyfoethogi pob haen o gymdeithas a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n hawdd anghofio mai gwirfoddolwyr, er enghraifft, yw ein Timau Achub Mynydd, ein Gwasanaeth Bad Achub – dwy enghraifft bwysig o gofio lleoliad Gwynedd rhwng y môr a'r mynydd. Tydi pawb ddim yn mynydda nac yn morio dwi'n gwybod, ond mae rhan fwya' ohonom, ar ryw bwynt yn ein bywydau, angen gwasanaeth iechyd. Mae'n dda felly gweld y Bwrdd Iechyd yn cydnabod rôl gwirfoddolwyr ac, yn bwysicach fyth, yn cydnabod yr angen am gydnabod a chefnogi gwirfoddolwyr. Bydd yn ddifyr gweld dros y misoedd nesaf sut bydd y Bwrdd Iechyd yn gwireddu elfennau o'r Polisi Gwirfoddoli ac os bydd y ddogfen yn gwneud gwahaniaeth 'go iawn' i'r ffordd mae'r gwasanaeth iechyd yn cefnogi gwirfoddolwyr.

Mae un peth yn sicr, byddai ein gwasanaeth iechyd yn llawer tlotach heb wirfoddolwyr. Fel y dywedais sawl gwaith yn ystod y digwyddiadau … "Nid yw gwirfoddolwyr yn derbyn tâl, nid oherwydd eu bod yn ddi-werth ond oherwydd eu bod yn amhrisiadwy".

Tan tro nesa', Bethan

Croeso

Estynnwn groeso i aelod newydd o staff atom ym Mantell Gwynedd.

Mae **Rhian Griffiths** wedi'i phenodi fel Swyddog Cyswllt Cymunedol fel rhan o brosiect Presgripsiwn Cymdeithasol. Mae gan Rhian brofiad helaeth o weithio yn y Trydydd Sector. Cewch ddarllen mwy am y prosiect yn nhudalen Iechyd a Llesiant.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL MANTELL GWYNEDD

Cynhelir y cyfarfod hwn eleni
yn Neuadd Ercwlff, Portmeirion
ar y 16eg o Dachwedd am 11.00 o'r gloch.

Siaradwr Gwadd:
Tudur Owen, y digrifwr

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn fuan.

Sesiynau Galw Heibio Cronfa Cynhwysiant Gweithredol WCVA

Mae Cronfa Cynhwysiant Gweithredol WCVA yn adeiladu ar lwyddiannau ei fentrau blaenorol a ariannwyd drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn enwedig rhaglenni'r Farchnad Lafur Trosiannol a'r Porth Ymgysylltu, a gyllidodd gyda'i gilydd bron i 35,000 o bobl i ymgymryd â gweithgareddau yn amrywio o gamau cyntaf o ymgysylltu â'r gymuned hyd at leoliadau cyflogaeth gyda chefnogaeth.

Mae cyfleoedd i gynnal prosiectau'r gronfa ar gael i fudiadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sydd am wneud gwahaniaeth i ostwng tlodi a diweithdra yng Nghymru.

Mae haen gyntaf y gronfa yn canolbwyntio ar gefnogi'r cyfranogwyr, rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur gan gynnig y 'cam cyntaf' yn nhaith y cyfranogwyr at gyflogaeth. Bydd yn cynnwys ystod eang o weithgareddau megis hyfforddiant sgiliau sylfaenol, gwirfoddoli, rheoli arian a sgiliau cymdeithasol.

Mae'r ail haen yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth gyda thâl a chefnogaeth am 35 awr yr wythnos hyd at 26 wythnos. Am y cyfnod yma bydd cyfranogwyr yn cael eu talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Ymysg y gweithgareddau cynigir hyfforddiant sgiliau hanfodol, profiad gwaith go iawn, hyfforddiant rheoli arian a chymorth i chwilio am swydd.

Dosbarthir cyllid drwy broses grantiau cystadleuol parhaus a rhaid gwneud pob cais trwy ymgeisio ar-lein, eDendroCymru.

Bydd aelod o staff y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol yn cynnal sesiwn galw heibio ar yr amser/lleoliad canlynol:

5ed, Hydref, 2016
Swyddfa Mantell Gwynedd,
Caernarfon, LL55 1AB
rhwng 9.00 y.b. - 1.00 y.p.

9fed, Tachwedd, 2016
Swyddfa Mantell Gwynedd,
Caernarfon, LL55 1AB
rhwng 9.00 y.b. - 1.00 y.p.

Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol – Swyddog Cyswllt Cymunedol Arfon

Mae'r swydd Swyddog Cyswllt Cymunedol yn rhan o brosiect presgripsiwn cymdeithasol ehangach. Mae'r cynllun yn cefnogi gweledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sef gwella iechyd y boblogaeth, datblygu gwasanaeth iechyd integredig a darparu gofal rhagorol mewn partneriaeth efo cyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys mudiadau'r Trydydd Sector. Mae'r cynllun hefyd yn cyd-fynd â chyfeiriad y Llywodraeth sydd wedi ei osod yn y Ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pwrpas y swydd yw cefnogi unigolion i adnabod eu hanghenion eu hunain ac yna cyfeirio at fudiadau eraill, gwasanaethau neu weithgareddau cymunedol lle bo'n addas a phriodol. Dim creu dibyniaeth ydi nod y cynllun ond grymuso unigolion i ddod o hyd i weithgaredd addas yn eu cymunedau gyda'r nod o wella eu llesiant. "Gafael llaw i ddechrau a gollwng yn ara' deg pan fydd angen".

Rydym yn falch iawn i nodi fod Rhian Griffiths bellach wedi dechrau yn y swydd fel swyddog cyswllt cymunedol yn ardal Arfon. Bydd Rhian yn gweithio yn agos gyda Meddygon Teulu, gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a mudiadau'r trydydd sector … *Rwyf yn edrych ymlaen at gael y cyfle yma i fod yn rhan o'r Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol yn Arfon ac i weithio gydag unigolion a phob partner arall. Mae'r potensial i wella llesiant unigolion yn enfawr a gydag eich cymorth a'ch cefnogaeth fe allwn ni wneud gwahaniaeth i fywydau pobl.*

Am fwy o wybodaeth am y cynllun neu os oes gennych wybodaeth am eich gwasanaethau/grwpiau cefnogol yn yr ardal cysylltwch â Rhian: ***linc@mantellgwynedd.com*** neu **01286 672626** / **07940 375467**.

GRŴP RHWYDWAITH ARMA GOGLEDD CYMRU

ARMA yw'r corff ambarél sy'n darparu llais unedig ar gyfer pobl sy'n byw efo cyflyrau arthritis ac anhwylderau cyhyrysgerbydol. Mae'r cyflyrau hyn yn effeithio ar gymalau, yr esgyrn a'r cyhyrau gan gynnwys poen cefn yn ogystal â chyflyrau awtoimiwnedd mwy prin.

Mae tua 40 o sefydliadau yn aelodau o ARMA sydd yn amrywio o grwpiau cefnogi arbenigol ar gyfer cyflyrau prin i elusennau ymchwil mawr a chyrff proffesiynol cenedlaethol.

Am fwy o wybodaeth am waith y Grŵp yma yng Ngogledd Cymru e-bostiwch ***nwarma2007@gmail.com***

Am fwy o wybodaeth am y cyflyrau a'r adnoddau cefnogol ewch ar y wefan ***www.arma.uk.net/***

RHWYDWAITH LLESIANT Y TRYDYDD SECTOR – 08/07/2016

Mynychodd mwy na 40 o gynrychiolwyr Rhwydwaith Llesiant y Trydydd Sector (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc) a gynhaliwyd ar Orffennaf yr 8fed, 2016 yn y Clwb Pêl Droed ym Mhorthmadog. Roedd yn gyfle gwych i fudiadau ddod i adnabod ei gilydd yn well drwy ddefnyddio dull rhyngweithiol "Spid detio".

STORI JACKIE

Yn 2003 dewiswyd Pen Llŷn fel man ymddeoliad i fy ngŵr Malcolm a minnau, ond yn 2008 dioddefodd fy mam strôc, symudodd i fyw yn barhaol gyda ni gan fy ngwneud yn ofalydd llawn amser iddi.

Bu farw fy mam yn 2012 ac yna 18 mis wedi hynny collais fy ngŵr hefyd i ganser. Torrais fy nghalon a theimlo yn unig ac ynysig heb ffrindiau gan i mi dreulio pob eiliad o fy amser dros y 5 mlynedd diwethaf fel gofalydd llawn amser. 'Roedd y gwacter yn annioddefol ac roeddwn angen ail gydio eto mewn bywyd, bod yn ddefnyddiol a chael fy ngwerthfawrogi.

Roeddwn â diddordeb mewn gwirfoddoli gan obeithio y byddai yn gyfle i wneud rhywbeth defnyddiol gyda fy amser sbâr. Drwy ymweld â'r llyfrgell leol cefais hyd i wybodaeth am Ffrindia' a chysylltais am becyn.

Daeth Dawn, Cydlynydd Dwyfor, mewn cysylltiad yn fuan a daeth i'm cyfarfod. Gwnaethpwyd y gwaith papur angenrheidiol a dewiswyd yn ddoeth gwraig o'r enw Joan i mi ei chyfeillio. Dwi ddim wedi edrych yn ôl, mae Joan yn berson arbennig iawn ac mae gennym gymaint yn gyffredin, yn bersonol dwi'n derbyn cymaint o'r ymweliadau a gobeithiaf ei bod hithau hefyd yn cael yr un boddhad. Mae'r weithred o wirfoddoli yn wobr ynddo'i hun. 'Fe gewch o fywyd yr hyn rydych wedi buddsoddi ynddo' meddan nhw a chredaf i hyn fod yn berffaith wir.

Jaqueline Fish – gwirfoddolwraig ardal Dwyfor

Mewn un o gyfarfodydd Ffrindia' bum yn ffodus i gyfarfod â Sian, gwirfoddolwr arall sydd yn byw ym Mhwllheli. Ymhen dim daeth yn ffrind agos ac rydym yn rhannu diddordebau tebyg fel Cerddoriaeth a Chelfyddydau ac yn treulio llawer o amser gyda'n gilydd. Hefyd, trwy wirfoddoli rwyf wedi gwneud nifer o ffrindiau eraill a byddaf yn eu cyfarfod yn aml.

Felly, ar ôl cyfnod trist yn fy mywyd rwyf heddiw yn gallu byw bywyd llawn. Mae'n wir i ddweud fod gwirfoddoli hefo Ffrindia' wedi chwarae rhan bwysig yn hyn o beth.

Yn ddi-os mae Ffrindia' wedi chwarae rhan allweddol wrth i mi gamu ymlaen i bennod nesaf o fy mywyd, am hyn byddaf yn dra diolchgar.

Y Dyfodol

Rydym yn falch i adrodd bod Cynllun Ffrindia' wedi derbyn cyllid i barhau yn ei ffurf bresennol hyd at Mawrth 31, 2017.

Cyfeillion Gwirfoddol
Ffrindia'
Voluntary Befrienders
Rhowch eich ffydd mewn ffrind... Put your faith in a friend...

Cynllun Gwirfoddoli Gwynedd

Mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn falch iawn o gyhoeddi fod Cynllun Gwirfoddoli Gwynedd wedi cael ei lansio yn swyddogol yn nigwyddiad Dathlu a Diolch i Wirfoddolwyr ym Mhortmeirion fis Mehefin.

Nod Cynllun Gwirfoddoli Gwynedd yw cydnabod a chefnogi'r ymdrech a'r amser a wneir gan wirfoddolwyr sy'n helpu ac yn cefnogi eu cymuned leol. Mae'r cynllun hwn am ddim ac ar gael i unrhyw wirfoddolwr dros 25 oed sy'n gwirfoddoli yng Ngwynedd. Gall gwirfoddolwyr fod yn deilwng i dderbyn tystysgrifau 50, 100, 200 a 500 awr fel cydnabyddiaeth am eu hymdrechion.

Hefyd, rydym yn derbyn enwebiadau gan fudiadau ar gyfer tystysgrif arbennig 'Gwasanaeth Hirdymor'.

Y cwbl sydd angen i'w wneud yw cofrestru ar y cynllun, casglu a chofnodi'r oriau gwirfoddoli, cyflwyno'r dystiolaeth ac yna byddwn yn prosesu ceisiadau am dystysgrif.

Mae mor syml â hynny!

Am ragor o fanylion neu i gofrestru ar y cynllun, cysylltwch â Carwyn yn y Ganolfan Gwirfoddoli er mwyn derbyn pecyn gwybodaeth.

carwynhumphreys@mantellgwynedd.com
neu
01286 672 626

Aaron Pleming yn derbyn ei dystysgrif 100 awr

Strategaeth Gwirfoddoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Nos Fawrth 6ed o Fedi, yn Venue Cymru cyhoeddwyd a lansiwyd strategaeth gwirfoddoli newydd y Bwrdd Iechyd. Dros y misoedd diwethaf, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ar draws Gogledd Cymru ar gyfer rhanddeiliaid o'r sector wirfoddol yn ogystal â gwirfodd-olwyr er mwyn siapio'r ddogfen hon.

Mae Fforwm Gwirfoddoli eisoes wedi cael ei sefydlu er mwyn cyflawni'r gwaith o sicrhau cefnogaeth a chydnabyddiaeth haeddiannol o'r gwaith a wneir gan wirfoddolwyr o fewn y maes iechyd a lles. Am ragor o wybodaeth neu am gopi o'r ddogfen, cysylltwch â Susan Marriott (Rheolwr Gwirfoddolwyr) ***susan.marriott@wales.nhs.uk***

Gwirfoddolwyr y Mileniwm – Llwyddiannau

Tystysgrif am 50 awr o wirfoddoli

Dafydd Williams – Coleg Glynllifon
Samantha Bowden – Coleg Glynllifon
Owen Williams – Coleg Glynllifon
Jamie Vowles – Coleg Glynllifon
Luke Tommis – Coleg Glynllifon
Siobhaun Roberts – Coleg Glynllifon
Kevin Roberts – Coleg Glynllifon
Robert Owen – Coleg Glynllifon
Mari Owen – Coleg Glynllifon
Rebecca Jones – Coleg Glynllifon
Priscilla Jones – Coleg Glynllifon
Gruffudd Jones – Coleg Glynllifon
Aaron Jones – Coleg Glynllifon
Owain Jones – Coleg Glynllifon
Sam Gibbs – Coleg Glynllifon
Michael Evans – Coleg Glynllifon
Keeley Cotterill-Ball – Coleg Glynllifon
Joseff Williams – Coleg Meirion-Dwyfor
Natalie Usher – Gisda

Tystysgrif 100 awr o wirfoddoli

Danielle Davies – Coleg Glynllifon
Angharad Hughes – Coleg Glynllifon
Aled Roberts – Coleg Glynllifon
Hannah Slater – Coleg Glynllifon
Lauren Williams – Coleg Glynllifon
Lowri Wyn Jones – Ffrindia'
Stephen Pierce – Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
Charlie Owen – Canolfan Hamdden Bermo
Mari Roberts – Ysgol Morfa Nefyn
Sophie Evans – Ysgol y Manod
Caitlyn Holmes – Ysgol Bro Lleu

Tystysgrif 200 awr, Gwobr Rhagoriaeth

Steven Roberts – Coleg Glynllifon a Gisda
Kelvin Humphreys – Pontio, Elfennau Gwyllt a Race for Life
Sarah Thornton – Menter Fachwen
Amy Evans – Cymdeithas Eryri, Cymdeithas Geledlaethol y Plant Byddar a SNAP Cymru
Mirain Llwyd Roberts – Prifysgol Bangor, Mantell Gwynedd a Ffrindia'

Da iawn chi!

Ar y dde: Gwirfoddolwyr Coleg Glynllifon

GwirVoL

Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd

Sut i Ddatgloi Potensial y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

Deall Gwerth Cymdeithasol Llesiant i Drawsnewid Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Dr Adam Richards @ Social Value Cymru wedi ysgrifennu adroddiad am sut gall gwerth cymdeithasol ein helpu i ymateb i'r Ddeddf newydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Dyma ddarn o'r adroddiad …

Pwrpas sylfaenol y Ddeddf yw cael mudiadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i weithio'n wahanol, ac i wneud hynny rydym angen meddwl am beth yw'r pethau pwysig sydd angen eu mesur a'u rheoli. Drwy ddeall gwerth cymdeithasol gweithgareddau gallwn weithio i reoli llesiant yn effeithiol, ac mae hyn yn angenrheidiol i wneud bwriad y Ddeddf yn realiti.

Felly, sut gall y rhai sydd yn gwneud penderfyniadau feddwl yn yr hir dymor, a gweithio yn fwy effeithiol gyda phobl gan gydweithio i atal problemau. Un o'r prif bethau i'w hystyried yw canfod beth sydd angen ei fesur nawr, fel ein bod yn deall faint yr ydym yn ei gyfrannu tuag at yr agenda llesiant. Efallai nad dyma'r syniad mwyaf cyffrous, ond heb fesur beth yr ydym yn ei wneud nawr, rydym yn cyfyngu'r newidiadau gallwn ei wneud ym mywydau bobl.



Mae hyn yn golygu yn ogystal â mesur y pethau arferol, fel costau ariannol a nifer o bobl yr ydym yn eu cefnogi, rydym hefyd angen mesur pethau eraill, fel sut mae ein gwaith wedi lleihau unigrwydd pobl hŷn, cryfhau hyder rhieni, neu wella iechyd meddwl rhywun sydd wedi dioddef o gamdriniaeth.

Os nad ydym yn mesur y pethau sydd yn bwysig, ac yn edrych ar bethau sydd yn hawdd i'w mesur yn unig, ni allwn obeithio i wella pethau yn sylweddol, ac ni fydd amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu gwireddu.

I ddarllen am sut gall gwerth cymdeithasol ein helpu i greu hyn yn realiti ac am yr adroddiad cyfan, mi fydd ar gael ar ein gwefan yn fuan …

www.mantellgwynedd.com

Gweithdai Hyfforddiant

Gallwn gynnig sesiynau cyflwyniadol, neu gweithdai mwy dwys i reolwyr, ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr. Roddem yn ffodus iawn i gael nifer o sesiynau hyfforddiant gyda nifer o fudiadau a oedd yn caniatáu iddynt ddechrau ystyried pwy yw ei budd-ddeiliaid a dechrau meddwl beth sy'n newid ym mywydau bobl fel canlyniad o'r gwaith da.

Gwasanaethau Gwerthuso

Gallwn gefnogi eich ceisiadau ariannol drwy eich helpu i ystyried effaith gymdeithasol eich gwaith yn ystod y camau tendro. Gallwn hefyd weithio gyda chi i feddwl am y systemau a phrosesau i fesur eich effaith, a darparu gwerthusiad cyflawn o'r gwerth cymdeithasol sy'n cael ei greu drwy eich gweithgareddau.

Lansio Grant Gwirfoddoli Cymru

Gwirfoddoli Cymru Volunteering Wales

Mae'r cynllun grant sengl newydd yn agor ar 1 Medi 2016. Ariennir Grantiau Gwirfoddoli Cymru gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo gwirfoddoli yng Nghymru. Gweinyddir y cynllun gan y corff ymbarél i'r trydydd sector Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Nod y cynllun yw cefnogi prosiectau gwirfoddoli ffurfiol sy'n recriwtio, yn cefnogi, yn hyfforddi ac yn lleoli gwirfoddolwyr newydd. A chefnogi prosiectau gwirfoddoli sy'n gweithio tuag at gefnogi y themâu ym mholisi gwirfoddoli Llywodraeth Cymru sef pobl ifanc, y Gymraeg, trechu tlodi, grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, allgau cymdeithasol, a phobl sydd angen ychydig o gymorth ychwanegol oherwydd iechyd, hyder, gallu neu ddiwylliant.

Mae grantiau gwerth hyd at £20,000 ar gael.

Ceir proses ymgeisio ar-lein drwy wefan ***https://etenderwales.bravosolution.co.uk/cym/login.shtml*** e-dendro Cymru a bydd WCVA yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth ledled Cymru, ynghyd â gweminar a fydd ar gael ar ***www.wcva.org.uk***

Mae cyfnod ymgeisio Grantiau Gwirfoddoli Cymru yn agored rhwng 1 Medi a 10 Tachwedd 2016, gan ariannu gweithgareddau rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018.

Chwilio am gyllid i gefnogi eich prosiect gwirfoddoli?

A oes angen i chi recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd?

Os felly efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am uchafswm o £20,000.

Cynhelir Sioe Deithiol Gwybodaeth,
dydd Mawrth, 11eg Hydref, 2016
yng Nghapel Berea Newydd, Bangor, LL57 2AX
am 10.00 y.b.

I archebu lle cysylltwch â:
Bethan yn Medrwn Môn *neu*
Carwyn yn Mantell Gwynedd
01248 724944 / 01286 672626

RHAGLEN DATBLYGU CYMRU

Yn cefnogi elusennau a grwpiau cymunedol yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau codi arian digidol

Localgiving

Beth yw Localgiving?

Mae Localgiving yn elusen sy'n helpu mudiadau ar lawr gwlad i godi arian ar-lein, datblygu eu sgiliau digidol a chysylltu â phobl leol. Ers 2009, rydym wedi helpu mudiadau elusennol i godi mwy na £13 miliwn ar-lein!

Ynglŷn â'r Rhaglen

Diolch i gyllid a chymorth hael gan y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru, mae Localgiving wedi lansio rhaglen ranbarthol gyffrous yng Nghymru a fydd ar waith am ddwy flynedd.

Gyda dau aelod o staff pwrpasol yn y Rhyl a Chaerdydd, mae'r rhaglen yn cynnig cymorth personol a thrylwyr i rymuso grwpiau gwirfoddol lleol i gysylltu â chefnogwyr, codi arian ar-lein a chymryd rheolaeth dros eu dyfodol ariannol.

Sut mae'n gweithio

Bydd elusennau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen datblygu yn elwa o sawl budd gwahanol, gan gynnwys:

- Aelodaeth am ddim o Localgiving am 12 mis (£72 fel arfer);
- Cymorth, hyfforddiant a mentora un wrth un ar gyfer codi arian ar-lein;
- Person cyswllt penodol a fydd ar gael dydd Llun – Gwener, 9:30 a.m. – 5:30 p.m. i drafod unrhyw fater yn ymwneud â chodi arian ar-lein;
- £200 o gyllid cyfatebol ar gyfer rhoddion a geir ar-lein;
- Cymorth Rhodd Awtomatig, i elusennau cofrestredig ac elusennau sydd heb gofrestru.

Cymryd rhan

Os ydych yn meddwl y gallai'ch elusen neu'ch grŵp cymunedol chi elwa o'r cynnig hwn, cofrestrwch eich diddordeb ar ***join.localgiving.org/cymru*** heddiw!

I gymryd rhan neu gael gwybod mwy, cysylltwch ag Emma Jones (Swyddog Datblygu Gogledd Cymru):
emma@localgiving.org
neu ***07808 889671***

YSTAFELLOEDD / SWYDDFEYDD AR OSOD

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB
Yr Hen Swyddfa Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau LL40 1SB

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Ceren Williams, Mantell Gwynedd: 01286 672606

MAE UNED SYMUDOL MANTELL GWYNEDD AR GAEL I'W LLOGI AM BRIS RHESYMOL

COSTAU LLOGI'R UNED:

Aelodau o Mantell Gwynedd:
£130 y diwrnod (a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).

Defnyddwyr eraill: £150 y diwrnod
(a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod telerau arbennig, e.e. defnyddio'r cerbyd yn rheolaidd am gyfnod penodol (gallwn ddod i drefniadau rhesymol iawn).

Cysylltwch drwy e-bostio:
ymholiadau@mantellgwynedd.com
Ffonio: ***01286 672 626***
Neu trwy ein gwefan:
www.mantellgwynedd.com

HYFFORDDIANT / DIGWYDDIADAU MANTELL GWYNEDD

Cymorth Cyntaf Brys
Hyfforddwr: Andy Thompson
20fed Hydref, 2016
Neuadd Goffa Penygroes

Diogelwch Bwyd Lefel 2 Mewn Arlwyo
Hyfforddwr: Iolo Povey
3ydd Tachwedd, 2016
Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Mantell Gwynedd
16eg Tachwedd, 2016
Neuadd Erclwff, Portmeirion

Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu
Hyfforddwr: Y Bont
30ain Tachwedd, 2016
9.30 – 4.00
Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon

I gofrestru i fynychu hyfforddiant a nodir uchod cysylltwch ag
Ellen ap Dafydd
ellen@mantellgwynedd.com
01286 672 626

Neu os hoffech drafod anghenion hyfforddiant eich mudiad cysylltwch â
Delyth Vaughan
delyth@mantellgwynedd.com
01286 672 626

HYFFORDDIANT WCVA

Sgiliau Hyfforddi
2ail Tachwedd, 2016 – WCVA, Rhyl (LL18 3EB)

Rheoli Prosiectau
22ain Tachwedd, 2016 – WCVA, Rhyl (LL18 3EB)

Gweithdy: Sefydlu ac Adfywio Rhwydweithiau
1af Rhagfyr, 2016 – Prifysgol Glyndŵr (LL11 2AW)

I archebu lle ewch i
www.wcva.org.uk
neu i gael rhagor o wybodaeth ffoniwch ***0800 2888329***
neu e-bostio
help@wcva.org.uk

facebook.com/mantellg

@MantellGwynedd